

ATODIAD / ENCLOSURE  
CH

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

<b>PWYLLGOR:</b>	<b>PWYLLGOR SAFONAU</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>11 MEHEFIN 2014</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>Y WEITHDREFN GWYNION GORFFORAETHOL (AC EITHRIO AR GYFER Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AC YSGOLION) - CYDYMFFURFIAETH</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>ER GWYBODAETH</b>
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	<b>RHEOLWR ARCHWILIO</b>
<b>GWEITHREDU:</b>	<b>ADRODDIAD ER GWYBODAETH</b>

### Rhagarweiniad

Cynhaliwyd archwiliad o'r Weithdrefn Gwynion Gorfforaethol fel rhan o'r cynllun cyfnodol ar gyfer gwaith archwilio mewnol yn 2014/15 yn dilyn cais gan y Pwyllgor Safonau. Roedd yr adolygiad yn cynnwys profion cyfyngedig ar reolaethau allweddol o fewn y weithdrefn gyda golwg ar ddod i farn ynghylch cydymffurfiaeth gyda'r weithdrefn a'i heffeithiolrwydd.

Rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014, derbyniwyd a phroseswyd 62 o gwynion.

### Casgliadau

Casglodd yr adolygiad bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r polisi o fewn y Gwasanaethau ac yn Gorfforaethol. Roedd y ddau wendid o ran rheolaethau yn ymwneud â hyfforddi staff ar y Polisi Pryderon a Chwynion a chynhyrchu adroddiad blynyddol i ddarparu dadansoddiad o batrymau cwyno a gwersi i'w dysgu o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ddau wendid hyn yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth gyda rheolaethau a nodwyd o fewn y Polisi.

O'r 62 o gwynion ffurfiol a dderbyniwyd ac a broseswyd yn ystod y cyfnod Ebrill 2013 i Fawrth 2014, dim ond dau ohonynt a gyfeiriwyd i'r Ombwdsmon. Mae hyn yn cyfateb i 3.3% o'r holl gwynion a broseswyd sydd, fe ystyrir, yn ffigwr isel o gymharu â chyfanswm y cyfeiriadau. O'r cwynion a gyfeiriwyd i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cymru ni chafodd yr un ohonynt eu cefnogi gan yr Ombwdsmon fel achosion o gamweinyddiaeth gan y Cyngor

Mae'r ffigyrau hyn yn rhoi sicrwydd bod y Polisi Pryderon a Chwynion yn cael ei weithredu'n gyson o fewn y gwasanaethau ac yn gorfforaethol a'i fod yn parhau i fod yn effeithiol.

### Argymhellion

Gwnaed dau o argymhellion categori canolig mewn perthynas â materion cydymffurfiaeth a nodwyd ynghylch hyfforddi staff ac adrodd yn flynyddol, gan gynnwys patrymau a gwersi a ddysgwyd.